

HUGHES, ARWEL (1909-1988), cerddor

Enw: Arwel Hughes
Dyddiad geni: 1909
Dyddiad marw: 1988
Priod: Enid P. Hughes (née Thomas)
Plentyn: Delun Arwel Callow (née Hughes)
Plentyn: Ieuan Arwel Hughes
Plentyn: Owain Arwel Hughes
Rhiant: Catherine Hughes
Rhiant: William Hughes
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: cerddor
Maes gweithgaredd: Cerddoriaeth
Awdur: Rhidian Griffiths

Ganed Arwel Hughes ar 25 Awst 1909 yn 'Arwelfa', Rhosllannerchrugog, yn un o naw plentyn William a Catherine Hughes. Brawd iddo oedd y cerddor **John Hughes** (1896-1968). Addysgwyd ef yn Ysgol Ramadeg Rhiwabon ac yn y Coleg Cerdd Brenhinol yn Llundain, lle bu'n astudio cyfansoddi gyda C. H. Kitson a Ralph Vaughan Williams. Bu'n organydd eglwys St Margaret's, Westminster ac eglwys St Philip a St James yn Rhydychen. Yn 1935 penodwyd ef i swydd gyda'r BBC yng Nghymru a dod yn gynhyrhydd yn yr Adran Gerddoriaeth o dan **Mansel Thomas**. Olynodd **Mansel Thomas** fel Pennaeth yr Adran o 1965 hyd 1971. Bu'n arwain Cerddorfa Gymreig y BBC o 1950 ymlaen, a gwnaeth lawer i hyrwyddo gwaith cerddorion ac artistiaid Cymreig drwy berfformiadau radio a theledu. Bu'n Gyfarwyddwr Cerdd Eisteddfod Gydwladol Llangollen o 1978 hyd 1986. Ef a drefnodd y gerddoriaeth ar gyfer seremoni arwisgo Tywysog Cymru yng Nghaernarfon yn 1969, ac fe'i penodwyd yn OBE yn y flwyddyn honno. Yng Nghaerdydd gwasanaethodd am flynyddoedd fel organydd a chorfeistr capel y Tabernacl (B) ac arwain nifer o berfformiadau corawl yno. Ef hefyd oedd Cadeirydd y Pwyllgor Cerdd yn Eisteddfodau Cenedlaethol Caerdydd yn 1960 ac 1978.

Daeth i'r amlwg fel cyfansoddwr yn Eisteddfod Genedlaethol Machynlleth yn 1937 pan berfformiwyd ei *Fantasia for Strings on an Old Ecclesiastical Welsh Melody* dan arweiniad Adrian Boulton. Cyflwynwyd y gwaith hwn i **J. Lloyd Williams** (1854-1945), a roesai'r alaw iddo. Fe'i cyhoeddwyd dan y teitl *Fantasia for Strings* yn 1949 a daeth yn ddarn poblogaidd i gerddorfa. Cyfansoddodd ddau waith corawl nodedig i libretti gan ei gydweithiwr yn y BBC, Aneirin Talfan Davies (1909-1980), sef *Dewi Sant* ar gyfer Gŵyl Prydain yn 1951, a *Pantycelyn*, a berfformiwyd yn Eisteddfod Genedlaethol Abertawe yn 1964. Lluniodd hefyd ddwy opera a lwyfannwyd gan Gwmni Opera Cenedlaethol Cymru, sef *Menna* (1954), i libretto gan Llewelyn Wyn Griffith, a berfformiwyd yn Sadler's Wells, a *Serch yw'r Doctor* (1960), i libretto gan **Saunders Lewis** ar sail drama Molière, *L'amour médecin*. Ymhlith ei weithiau llai daeth *Gweddi* (1944), i soprano, corws a llinynnau, yn boblogaidd, yn ogystal â'i osodiad o eiriau **T. Rowland Hughes**, 'Tydi a roddest'. Darlledwyd y gosodiad hwn ar ddiwedd rhaglen nodwedd ar Gymru yn 1938, ac fe'i trefnwyd gan y cyfansoddwr i gorau meibion yn ddiweddarach.

Priododd 1940 ag Enid P. Thomas, a chawsant ddau fab, Ieuan ac Owain, a merch, Delun. Daeth Owain i amlygrwydd fel arweinydd proffesiynol, a sefydlodd wŷr y cyfansoddwr, Meuryn Hughes, gwmni Aureus i gyhoeddi ei weithiau.

Bu farw yng Nghaerdydd 23 Medi 1988 ac amlogwyd ei weddillion yn Amlogfa Thornhill. Mewn teyrnged dywedodd Alun Guy amdano ei fod yn 'un o'r criw bychan o gyfansoddwyr a roddodd hunan-barch i gerddoriaeth Cymru'.

Awdur

Rhidian Griffiths

Ffynonellau

Cerddoriaeth Cymru, 8/9 (1988/89)

Y Faner, 7 Hydref 1988

Darllen Pellach

Mansel Thomas, *Cyfansoddwyr Ieuainc Cyfoes, Tir newydd*, rhif 7, Chwefror 1937, tt.3-6

ARWEL HUGHES, cyrchwyd Mai 2020

Oriana Publications: *Arwel Hughes (1909 - 1988)*, cyrchwyd Mai 2020

Lyn Davies, 'Hughes, Arwel (1909-1988)', *Cydymaith i Gerddoriaeth Cymru* (Talybont 2018), tt.241-242

Erthygl Wicipedia: *Arwel Hughes*

Dolenni Ychwanegol

Archifau LIGC: The Tŷ Cerdd Archive: C7: Arwel Hughes

VIAF: 79748762

Wikidata: Q3401348

Dyddiad cyhoeddi: 2014-05-19

Hawffraint Erthygl: <https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0/>

derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Griffiths, R., (2014). HUGHES, ARWEL (1909-1988), cerddor. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 19 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c10-HUGH-ARW-1909>

Diwylliant

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Nodi gan
Llywodraeth Cymru
Governed by
Welsh Government